



DATGANIAD SEFYLLFA

Safonau Masnach

Cefnogi'r uchelgais o Gymru ddi-fwg – mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae gan Safonau Masnach yng Nghymru rôl orfodi i'w chwarae o ran rheoli'r cyflenwad o dybaco anghyfreithlon. Mae hyn yn rhan o gyfrifoldeb amlasiantaeth ehangach i leihau cyfran y farchnad gan gydnabod bod argaeledd cynhyrchion tybaco pris isel yn tansailio mesurau allweddol eraill i reoli tybaco. Bydd llwyddo i leihau cyfran y farchnad o dybaco anghyfreithlon yn cefnogi amcan strategol Llywodraeth Cymru i Gymru fod yn ddi-fwg erbyn 2030.

NODAU, AMCANION A GYRWYR Y LLYWODRAETH

- Ysmygu yw achos unigol mwyaf marwolaethau cynamserol yng Nghymru a'r DU, ac mae'n gyfrifol am dros 5,500 o farwolaethau bob blwyddyn yng Nghymru. Bydd tua 1 o bob 2 ysmygwr hirdymor yn marw'n gynnar o ganlyniad i glefyd sy'n gysylltiedig ag ysmegu. Mae lleihau nifer y bobl sy'n ysmegu yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru sydd â strategaeth hirdymor i wneud Cymru'n "ddi-fwg" erbyn 2030.
- Mae cost uchel yn gysylltiedig ag ysmegu o ran trallod dynol a'r baich ariannol ar wasanaethau iechyd, cyflogwyr a'r economi ehangach.
- Ar hyn o bryd mae 17% o oedolion yng Nghymru yn ysmygwyr. Mae hynny'n tua 470,000 o'r boblogaeth oedolion.
- Mae cyfraddau mynychder yn amrywio o fewn grwpiau economaidd-gymdeithasol gyda'r rhai sydd leiaf yn gallu fforddio ysmegu yn cofnodi'r nifer uchaf o achosion a chyfraddau ysmegu yn ein hardaloedd tlotaf ac o fewn y grwpiau economaidd-gymdeithasol isaf yn parhau'n ystyfnig o uchel.
- Mae nifer yr achosion o ysmegu yn 21% yn yr ardaloedd tlotaf o'i gymharu â 13% yn yr ardaloedd mwyaf cyfoethog. Yn ogystal, mae 9% o bobl ifanc 15/16 oed yn ysmegu'n rheolaidd, yr un ffigur ag yr oedd bedair blynedd yn ôl.
- Mae ysmegu yn arferiad hynod gaethiwus a daeth y mwyafrif helaeth o oedolion sy'n ysmegu yn gaeth pan oeddent yn blant. Y rhai dan 18 oed sydd fwyaf mewn perygl o ddod yn gaeth i ysmegu tybaco.

Rheoli Tybaco

Mae Rheoli Tybaco yn ddull cyfannol o leihau nifer y bobl sy'n ysmegu ac mae'n rhaid adnabod ac ystyried y bygythiadau i leihau cyffredinolrwydd a chyflenwi ymyriadau niferus ac amrywiol i leihau cyffredinolrwydd.

Mae'n hanfodol cydnabod a deall pob bygythiad a sut mae'r bygythiadau hynny'n effeithio ac o bosibl yn tanseilio ymyriadau sydd wedi'u cynllunio i leihau nifer yr achosion. Mae methu ag adnabod a mynd i'r afael â bygythiadau o'r fath yn peri risg o wneud ymyriadau eraill yn llai effeithiol a gwastraffu adnoddau a fydd yn y pen draw yn arwain at fethiant i leihau cyffredinolrwydd.

Tybaco Anghyfreithlon

Tybaco anghyfreithlon yw tybaco sydd ar gael i ysmygwyr ei brynu yng Nghymru sy'n anghyfreithlon am wahanol resymau. Yr anghyfreithlondeb mwyaf sylfaenol yw nad oes treth yn cael ei thalu ac o ganlyniad mae cost tybaco anghyfreithlon fel arfer yn llai na hanner cost tybaco cyfreithlon. Mae tybaco anghyfreithlon yn cael ei gyflenwi trwy'r economi anffurfiol, o dai preifat, o dan y cownter mewn siopau cyfleustra, yn y gweithle ac ar gyfryngau cymdeithasol heb unrhyw ystyriaeth i anghyfreithlondeb. Mae hyn yn cynnwys gwerthu i blant.

Mae'r gost isel a'r argaeledd hawdd yn ei wneud yn ddeniadol i ysmygwyr ar incwm isel ac yn gwneud pobl ifanc nad ydynt yn ysmegu yn fwy agored i gaethiwed gydol oes.

Mae'r asesiad diweddaraf (2014) o gyfran y farchnad o dybaco anghyfreithlon yng Nghymru yn dangos bod 15% o'r tybaco sy'n cael ei ysmegu yng Nghymru yn anghyfreithlon. Ar lefelau cyffredinolrwydd a chyfraddau defnydd presennol mae hyn yn cyfateb i tua miliwn o sigarennau anghyfreithlon yn cael eu hysmygu yng Nghymru bob dydd. Bydd cyfran y farchnad o dybaco anghyfreithlon yn llawer uwch mewn ardaloedd o amddifadedd mwyaf. Nododd yr un asesiad fod 45% o ysmygwyr wedi cael cynnig tybaco anghyfreithlon a dywed 70% o'r rhai sy'n prynu tybaco anghyfreithlon yng Nghymru fod argaeledd tybaco anghyfreithlon yn ei gwneud hi'n bosibl iddynt ysmegu pan na allent ei fforddio fel arall.

Mae tybaco anghyfreithlon yn fygythiad sylweddol iawn i leihau mynychder ysmegu ac anghydraddoldeb iechyd. Mae fforddiadwyedd ac argaeledd yn tanseilio rheoli prisiau a gwaith i roi'r gorau i ysmegu. Mae'n ei gwneud yn anos i ysmygwyr presennol roi'r gorau iddi ac yn haws iddynt ysmegu mwy. Mae fforddiadwyedd ac argaeledd hefyd yn tanseilio cyfyngiad oedran ac yn ei gwneud yn haws i bobl ifanc nad ydynt yn ysmegu gael gafael ar dybaco a chael dibyniaeth gydol oes o bosibl.

CYFRANIAD AT YR AGENDA

Mae Safonau Masnach Cymru yn darparu cyngor, arweiniad a chymorth i holl wasanaethau Safonau Masnach Cymru ar sut y gall pob gwasanaeth fynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon a chyfrannu at amcanion strategol Llywodraeth Cymru.

Bydd lleihau cyfran y farchnad o dybaco anghyfreithlon yng Nghymru yn lleihau'r bygythiad y mae'n ei achosi i ymyriadau eraill a gynlluniwyd i leihau cyffredinolrwydd a gwneud yr ymyriadau hynny'n fwy effeithiol. Bydd hyn yn cefnogi ysmygwyr sy'n ceisio rhoi'r gorau iddi a bydd yn cynyddu amddiffyniad pobl ifanc rhag mynd yn gaeth. Bydd Safonau Masnach yn cefnogi hyn drwy:

Cymryd camau gorfodi yn erbyn cyflenwyr a defnyddwyr terfynol gyda'r bwriad o sicrhau'r aflonyddwch mwyaf, atafaelu stoc, mynd i'r afael â landlordiaid ac erlyn troseddwyr lle bo'n briodol. Defnyddio datganiadau i'r cyfryngau i roi cyhoeddusrwydd i weithgarwch gorfodi lleol a chyflwyno negeseuon iechyd allweddol ynghylch ysmegu a'r bygythiad i blant.

Defnyddio cyllid CThEM sydd ar gael i wella gweithgarwch gorfodi.

Cofnodi a rhannu'r holl wybodaeth i gefnogi gwaith yr holl asiantaethau gorfodi sy'n ymwneud â mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon; CThEM, UKBF, yr Heddlu.

Cyfrannu ar lefel strategol i hyrwyddo mater tybaco anghyfreithlon gyda phartneriaid rheoli tybaco, i wella dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r bygythiad i amcanion strategol ynghylch lleihau nifer y bobl sy'n ysmegu.

Mae tystiolaeth o ardaloedd eraill yn y DU wedi dangos y gellir lleihau cyfran y farchnad o dybaco anghyfreithlon drwy gyfuniad o ymyriadau a gynlluniwyd i leihau'r galw a chyfyngu ar y cyflenwad. Mae hyn wedi cynnwys negeseuon prawf y farchnad i leihau galw a chynyddu adrodd ynghyd â chymorth gorfodi ychwanegol i weithredu yn erbyn cyflenwyr. Mae ymyriadau a gynlluniwyd i fynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon yn y meysydd hynny wedi'u hadolygu'n allanol a'u cymeradwyo fel arfer gorau gan Ganolfan Astudiaethau Tybaco ac Alcohol y DU.

CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

1. Rhaid i leihau cyffredinolrwydd ysmegu yng Nghymru barhau i fod yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.
2. Mae Safonau Masnach Cymru wedi ymrwymo i chwarae rhan weithredol yn natblygiad y Cynllun Rheoli Tybaco newydd i Gymru a fydd yn mynd â ni i 2030.
3. Mae'r farchnad tybaco anghyfreithlon yn tansilio'n uniongyrchol y gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r mater iechyd cyhoeddus unigol mwyaf yng Nghymru, sef cyffredinolrwydd ysmegu.
4. Dylai mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon gael ei gofleidio'n llawn a rhaid cael adnoddau fel rhan o gynllun rheoli tybaco cynhwysfawr i Gymru.
5. Dylid ariannu asesiad wedi'i ddiweddarau o gyfran y farchnad o dybaco anghyfreithlon yng Nghymru, yn debyg i'r un a gynhaliwyd yn 2014, a'i gynnal fel mater o frys.
6. Mae Safonau Masnach Cymru wedi ymrwymo i barhau i rannu gwybodaeth ac arfer gorau er mwyn helpu i fynd i'r afael â phroblemau tybaco anghyfreithlon.

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn: <https://safonaumasnach.llyw.cymru/cym/home/>

Gorffennaf 2022